"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1875. [RHIF 33.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Anerchiad ar Addysg	193
Yr Aifft a Chanaan	199
Handel	203
Esgusodion	206
Y Cyfarfod Chwarterol	210
Uffern	213
Marwgofion	216
Barddoniaeth	216

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1875. [RHIF. 33.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

ANERCHIAD AR ADDYSG,

A draddodwyd i gynnulliad o Ysgolion Sabbothol, Sulgwyn, 1875, *yn y Free Trade Hall, Manchester,*

GAN Y PARCH. JOHN PAGE HOPPS, GLASGOW.

"Ymafael mewn addysg, ac na ollwng hi; cadw hi; canys dy fywyd di yw hi"—Diarhebion iv. 13.

YSGRIFENWYD y geiriau yma er ys mwy nâ dwy fil o flynyddau yn ol, ond maent mor newydd, mor gymhwys, ac mor ddefnyddiol i ni yn awr a phe byddent wedi eu llefaru am y tro cyntaf heddyw. Ysgrifenwyd hwy gan ddyn doeth oedd yn byw yn mhlith cenedl wareiddiedig, mewn gwlad bellenig, ar amser pan oedd ein cyndeidiau ni yn ddynion gwylltion y goedwig—neu ychydig iawn yn well nâ hyny, ond maent yn dyfod i ni mor naturiol, ac mor uniongyrchol, a phe byddai dyn o Manchester wedi eu hysgrifenu ar gyfer bechgyn a merched Manchester heddyw; a byddant cystal a newydd, ac mor ddefnyddiol i'r rhai a fyddant byw yn mhen dwy fil o flynyddoedd etto, ag ydynt i ni yn awr. Paham y mae hyn? Paham mae yr hen eiriau yma mor gymhwys ag y buont erioed—mor addas i gyflwr Prydain Fawr ag i Palestina,—fel nas gall amser ddim peri iddynt fyned allan o *ddate*, na chyfnewidiad hinsawdd ac arferion cenedlaethol andwyo eu defnyddioldeb? Mi ddywedaf wrthych. Y mae oblegyd fod y geiriau yma yn siarad am rywbeth nad yw yn perthyn i un oes, i un genedl, neu un gwareiddiad. Llefarant am "addysg," am

"ymafael" ynddi hi. Dywedant mai addysg yw bywyd. Maent yn cyfeirio at ammod arosol ac annghyfnewidiol cynnydd a dedwyddwch; ac o ganlyniad maent mor gyffredinol â'r awyr ydym yn anadlu, a'r goleuni neu'r gwlaw sydd yn disgyn arnom.

Mae yn wir fod addysg yn amrywio o oes i oes; ond mae y ddyledswydd o "ymafael" yn aros yr un. Mae dynion doeth yn gweled mwy o'r gwirionedd fel mae amser yn myned yn mlaen, ond yn nghanol yr holl gyfnewidiad a'r cynnydd, yr un peth sefydlog, arosol, yw *cariad* at y gwirionedd, *ymafael* mewn addysg. Trosglwydda pob dyn doeth drysorau newydd a helaethach o wybodaeth i'r rhai sydd yn dyfod ar ei ol; ond mae pob dyn doeth yn gadael yr hen ddyledswydd o ymafael mewn addysg yn y man lle cafodd efe hi. Ac fel ag y mae gyda dynion doeth mewn gwahanol oesau, felly mae gyda phob un yn ei fywyd ei hun. Fel yr â bywyd yn mlaen, mae yr olwg yn ymeangu ac yn dyfod yn ddysglaeriach, y meddwl yn cryfhau, a'r gwirionedd yn cael ei weled yn fwy eglur, ond fe erys un peth—y ddyledswydd, hyd y nod i'r diwedd, o ymafael mewn addysg.

Pan mae dyn wedi syrthio oddiar fwrdd llong i'r mor, mae yn gafaelyd mewn unrhyw ddernyn o raff neu bren fyddo tufewn i'w gyrhaedd. Pan mae dyn yn newynog iawn, nid oes gwahaniaeth gydag ef beth i fwyta. Felly y mae gyda'r rhai sydd yn brwydro yn erbyn anwybodaeth, a'r rhai ydynt yn sychedu am addysg. Maent yn ymafael ynddi, a chymerant yr hyn allant gael. Gellid crybwyll am lawer o fechgyn tylodion, y rhai, am fod newyn a syched arnynt am addysg, ydynt wedi addysgu eu hunain gystal ag y medrent, heb un cynnorthwy, ond hen lyfrau wedi eu prynu yn rhad oddiar fwrdd llyfrwerthwr ail-law; ac mae llawer ysgolhaig mawr, llawer peirianydd mawr, llawer fferyllydd mawr, seryddwr, neu ddaearegwr wedi esgyn bryn gwybodaeth a dylanwad yn unig trwy wneyd defnydd o ddydd y pethau bychain, a chymmeryd mantais o bob peth ag oedd tufewn i'w cyrhaedd pan oeddent yn ddigyfaill ac yn anadnabyddus. Yn mhen amser yr oeddent yn alluog i brynu llyfrau gwerthfawr, i sicrhau athrawon da, i gymmeryd mewn llaw brawfiadau costus, ac i weled fil o weithiau fwy nag a welsant yn ei dyddiau bore; ond yr oeddent bob amser yr un mewn un peth,—yr oeddent bob amser yn gwneyd y defnydd goreu o'r hyn oedd ganddynt,—yr oeddent bob amser yn ymafael mewn addysg.

Yr ydych yn gweled, gan hyny, paham mae y geiriau yma mor newydd heddyw ag erioed, mor ddefnyddiol ag y buont erioed. Maent felly oblegyd eu bod yn dweyd wrthym am wneyd rhywbeth ag y dylai pob un wneyd, uchel ac isel, cyfoethog a thylawd, hen ac ieuanc, athraw ac ysgolhaig, tad a mam. Dywedant wrthym, Cymmerwch yr hyn a *alloch* o wybodaeth,—chwi gyda llaw gref, a galluoedd addfed canol oed; chwithau gyda chynneddfau ofnus a gweinion plentyndod, —pawb o honoch yn ol eich gallu, "Ymafael mewn addysg, ac na ollwng hi; cadw hi; canys dy fywyd di yw hi."

Erbyn hyn yr ydych wedi gweled fod yma dri o bethau i sylwi arnynt:—Yn gyntaf, mae yma rywbeth i chwi i dalu sylw iddo—"*addysg*." Yn ail, mae yma rywbeth i chwi i ymwneyd ag ef—"*ymafael*." Yn

drydydd, mae yma reswm dros hyny—"*canys dy fywyd di yw hi.*" Edrychwch gyda mi ychydig yn fwy manwl ar y tri pheth hyn.

Yn gyntaf, mae rhywbeth ydych chwi i dalu sylw iddo. "*Addysg*" yw. Yn ffodus, oes dim eisiau cymhell dynion yn awr i hyn gymmaint ag a fu. Mae llyfrau, ysgolion, ac athrawon yn aml, ac mae pob un naill ai yn dysgu yn wirfoddol, neu yn cael ei orfodi i ddysgu. Heblaw hyny, chaiff penbwliaid ddim gwaith yn awr mewn un cylch. Mae'n rhaid i'r bachgen sydd yn rhedeg â'r negesau fod yn alluog i ddarllen, ysgrifenu, a rhifyddu ychydig, a bod yn feddianol ar rywfaint o wybodaeth gyffredinol, nas gall dim ond addysg ei chyfranu. Felly mae pobl yn gweled mai eu *interest* yw gweled eu plant yn cael addysg; ond mae rhieni yn cael eu cyfrif nid yn unig yn greulawn, ond yn ffol, os gadawant i'w plant dyfu i fyny mewn anwybodaeth.

Ond mae bob amser ddigon o le i gynnyddu mewn gwybodaeth, ac o ganlyniad, ddigon o le i ymafael mewn addysg; ac ni fu erioed fwy nag sydd yn awr. Yn y dyddiau sydd wedi myned heibio, yr oedd pobl yn barod i feddwl eu bod yn gwybod y cwbl ag oedd bosibl i wybod; ond yn awr, er fod gwybodaeth wedi ei gwasgar mor eang, mae y dynion doethaf yn gweled yn fwyaf eglur, fod y cwbl braidd ar ol heb ei ddysgu, fel pa fwyaf ydym ni yn wybod, y mwyaf i gyd ydym yn weled sydd i'w wybod. Mae, mewn gair, yr un peth gyda chyrhaedd gwybodaeth, ag yw gydag esgyn i ben mynydd. Pa uwchaf yr ewch chwi, uwchaf i gyd mae'r mynydd yn ymddangos. Yn awr ac eilwaith yr ydych yn meddwl eich bod wedi cyrhaedd ei ben, ond fel yr ydym yn esgyn dipyn yn uwch mae trum arall yn dyfod i'r golwg. Felly mae y rhai ydynt yn caru gwybodaeth yn dringo mynydd mawr y gwirionedd. Mae rhai yn chwerthin mewn digrifwch wrth ei draed, dim ond dechreu dringo, yn chwareu â'r A, B, C. Mae rhai yn methu ar hanner y ffordd. Rhai yn galw yn ofer ar ereill i ystopio, ac yn dweyd wrthynt eu bod yn myned yn rhy gyflym. Mae rhai yn mhell yn mlaen, allan o'r golwg, wedi myned i golli yn y cymmylau ydynt yn cuddio copa y mynydd oddiwrth bob llygad, ond nid oes un erioed wedi cyrhaeddd y man hwnw, nid oes neb wedi gweled diwedd y daith ogoneddus; nid oes un erioed wedi cael allan yr *holl* wirionedd; ond mae pawb, fel y maent yn esgyn, yn gweled golygfeydd rhyfeddol y mynydd, yn teimlo purdeb iachus yr awyr, yn canfod llewyrch yr haul yn tori trwy y cymmylau, ac ambell waith yn cael cipolwg ar y gogoniant sydd yn ymddangos fel yn dweyd am Dduw, am fywyd, am gariad, ac am y nefoedd.

A phwy sydd yn dringo y mynydd gogoneddus yma? Pwy sydd yn caru addysg? Yr wyf yn atteb: Pawb ag sydd yn ymdrechu gwybod y gwirionedd am bethau:—seryddwyr, fferyllwyr, naturiaethwyr, haneswyr, gwleidiadwyr, masnachwyr, bechgyn, a merched sydd yn dysgu eu gwersi â'u holl galon; pawb ydynt yn hiraethu am wybod, pawb ydynt yn teimlo angen i ddiwygio, i ychwanegu at gyfanswm gwybodaeth, pawb ag ydynt yn ymsymmud yn mlaen ac yn dweyd, mae'n rhaid i ni gael gafael ar y ffaith,—y ffaith am wyddor, y ffaith am y Beibl, y ffaith am grefydd, y ffaith am wleidiadaeth a masnach;

yr ydym ni am gael allan beth ellir ei brofi gan wyddor, ei gadarnhau gan y meddwl, ei gyfiawnhau gan y gydwybod, ei garu gan y galon.

Dyma, ynte, y gwrthddrych sydd wedi ei osod o'ch blaen chwi,—*gwirionedd*. Yr wyf yn ei osod o'ch blaen chwi yn awr, ac yn eich gorchymyn oll i ddechreu, neu i ddyfal-barhau yn yr yrfa ogoneddus tuag ato. Mae rhai yn byw er mwyn pleser, rhai er mwyn gwneyd arian, rhai er mwyn blaenu ar ereill mewn masnach, a rhai, fel mae gwaethaf y modd, yn byw er mwyn dim yn neillduol. Ond bydded i bob un sydd yn gwrandaw arnaf yn awr benderfynu byw er mwyn cynnydd mewn addysg. Yn neillduol, heddyw, yr wyf yn eich cymhell i wneyd cynnydd mewn *crefydd*, ond gwnewch ymdrech i weled yn glir beth yw crefydd mewn gwirionedd. Mae dynion wedi dweyd wrthych, neu fe ddywedant rhyw ddydd, fod yn rhaid i chwi er mwyn bod yn grefyddol, gredu llawer o bethau anhawdd, llawer o bethau annhebygol ac annaturiol, neu fod yn rhaid i chwi fyned o dan rhyw gyfnewidiad cyffrous. Yr wyf am ddweyd wrthych heddyw, mewn cyssylltiad â'r pwnc mawr yma o addysg grefyddol, y byddwch yn grefyddol pan y gosodwch eich calon ar wirionedd a daioni; pan y gorchfygwch yspryd drwg creulondeb, twyll, a hunan-ewyllys; pan y darostyngwch yr yspryd anufudd ac anystyriol sydd yn eich arwain i gamdreulio eich amser, ac i esgeuluso eich cyfleusderau euraidd; pan y siglwch ymaith y tymherau drwg sydd yn gofidio calonau y rhai sydd yn eich caru, ac uwchlaw y cwbl, pan y trowch eich calonau at eich Tad anwyl yn y nefoedd, ac y dysgwch ei fod yn gofalu am danoch, ei fod yn galw arnoch i'w wasanaethu, i'w garu, ac i'w fwynhau.

Ond yn awr, gwelwch yn y lle nesaf, yr hyn ydych i wneyd ag addysg. Mae'n rhaid i chwi "*ymafael*" mewn addysg, ei "*chadw hi*." Mae yr enghraifft o'r mynydd ag sydd raid i chwi i ddringo yn ymddangos fel yn wahanol oddiwrth yr hyn a ddefnyddir yma. Ymddengys yr ysgrifenydd fel yn meddwl am addysg fel rhyw beth y gellwch afaelyd ynddo, megys llyfr, llaw, rhaff, neu ymyl ysgol. Ond nid yw y ddau beth mor wahanol ar ol y cwbl. Mae'n rhaid i'r dringwr penderfynol "lynu wrthi," fel y dywedwn, mae'n rhaid iddo, fel pe byddai, afaelyd yn y mynydd â'i draed. Gall fod yn flin, yn ddigalon, gall fod mewn perygl o lithro, ond mae yr hen eiriau dewrion yma yn ei alw i gymmeryd calon newydd, a phwyso yn mlaen.

Ond gellir arddangos yr addysg a sonir yma am dani fel rhyw beth y gellwch chwi mewn gwirionedd gymmeryd gafael ynddo, megys llyfr, neu law gynnorthwyol athraw; neu fel rhywbeth ag ydych chwi yn gweithio wrtho,—rhyw bwnc neillduol, neu wersi yn gyffredinol. Yr ydych yn astudio daearyddiaeth, rhifyddiaeth, gramadeg, neu hanesiaeth,; yr ydych yn ei theimlo yn sych ac yn galed; ydych chwi ddim yn gweled yn iawn pa ddefnydd fydd y peth ydych yn ei ddysgu (ac mae'n rhyfedd mor barod ydym ni i beidio gweled defnydd peth fyddo yn anhawdd); ac mae rhywfaint o duedd ynoch i'w roi i fyny, neu i wneyd eich gwaith mewn dull ffurfiol ac annyben. Na, medd yr hen ysgrifenydd doeth yma, peidiwch gwneyd hyny; peidiwch rhoi i fyny; peidiwch gadael i anhawsderau gael y goreu arnoch, glynwch

wrthi, nes eu gorchfygu; gwnewch rywbeth gyda chyffwrdd â'ch gwers, neu edrych ar lyfr, neu gymmeryd cipolwg ar y pwnc fyddo genych mewn llaw; cymmerwch afael arno, na ollyngwch iddo fyned o'ch gafael, glynwch wrtho nes y byddoch wedi cael y trechaf arno.

Ac mae'r cynghor da yma yn dyfod adref gyda gallu neillduol mewn perthynas i addysg *foesol*—addysg mewn *right* a *wrong*, mewn gonestrwydd ac anonestrwydd, mewn gwirionedd a chelwydd, a'r cyffelyb. Peidiwch bod yn unig mor dda ag y dysgwylir chwi i fod; peidiwch gwrandaw ar gynghor yn unig pan nas gellwch *help*; peidiwch cofio gwneyd yr hyn sydd iawn yn unig pan byddo pobl yn edrych arnoch; peidiwch meddwl ei bod yn faich arnoch fod genych dad sydd bob amser yn dweyd nad ydych chwi ddim i wneyd y peth hwn, neu fam sydd bob amser yn dweyd y dylech wneyd y peth arall; peidiwch a'i hystyried yn waith caled, pan y gofynir arnoch neu y gorchymynir i chwi i wneyd eich dyledswydd a glynu wrtho. Yn hytrach, fel y dywed y dyn doeth a ysgrifenodd y geiriau hyn, cymmerwch afael dyn ar addysg; rhowch eich holl feddwl iddi hi, na ollyngwch hi yn rhydd, glynwch wrthi hi. Mae cwmpeini drwg yn ymdrechu eich tynu ymaith; mae pleserau swynol yn eich llithio i adael eich gafael yn rhydd, ond peidiwch rhoi fyny yn anad dim. Cymmerwch afael dda ar law eich athraw; daliwch ei air yn ddyogel yn eich calon; llefwch ar Dduw am gymhorth i ddal yn ddiysgog, ac yna gall ffyliaid a segurwyr wneyd eu gwaethaf.

Yn awr yn y lle diweddaf, ar ol gweled beth sydd genych i gymmeryd gafael arno, a beth i chwi i wneyd ag ef ar ol ei gael, edrychwch ar y rheswm mawr yma dros wneyd hyny: "*oblegyd dy fywyd di yw hi.*" Mae addysg yn fywyd; dyna'r gwirionedd mawr; o ganlyniad ymafaelwch ynddi; dyna air mawr y cynghor. Ond beth yw'r "bywyd" a siaradir am dano? Mae'r goeden yn byw, ond nid yw yn cael ei haddysgu; mae y blaidd yn byw, ond nid yw yn cael ei addysgu; mae yr anwariad yn byw, ond nid yw yn cael ei addysgu. Mae hyna yn wir; ond y bywyd a gyfeirir ato yma yw y gwir fywyd, bywyd uwch y meddwl sydd yn cynnyddu mewn goleuni, gwybodaeth, a dedwyddwch; nid bywyd y goeden, y blaidd, neu yr anwariad, ond bywyd prydferth yr yspryd sydd yn synied ac yn amgyffred yr holl ffeithiau mawrion sydd yn tynu ei sylw.

Fe wna hanes gogoneddus bywyd y wlad yma eglurhau beth wyf yn feddwl. Meddyliwch am hanes y genedl fawr sydd wedi gwneyd Prydain y peth yw hi yn awr,—sydd wedi ei gwneyd yn syndod y byd. Yr oedd unwaith yn ddiffaethle gwyllt, yn cael ei thrigianu gan ddynion gwylltach fyth; beth sydd wedi ei llanw â phentrefi prydferth, a threfydd sydd yn llawn gwaith a bywiogrwydd? Lle yr oedd y fforestydd yn tyfu, a'r anifeiliaid gwylltion yn rhuo am eu hysglyfaeth, a'r anwariad hanner noeth yn crwydro o fan i fan am foddion cynnaliaeth, mae cynhauafau toreithiog yn awr yn tyfu, mae trefydd cyfoethog yn sefyll, gyda sefydliadau addysg, llyfrgelloedd gwerthfawr, *museums* rhyfeddol, ac eglwysi prydferth i addysgu a dyrchafu y bobl. Beth sydd wedi cynnyrchu y cyfnewidiad mawr yma? Mi ddywedaf wrth-

ych. Darfu i'n cyndeidiau glywed ac ufuddhau i'r gair hwn. Yr oeddent yn sychedu am wybod, yr oeddent yn brwydro â'u hanwybodaeth, yr oeddent yn ymdrechu diwygio eu hunain, a chymmerent afael dda ar un ffaith ar ol y llall; a'r hyn a gymmerent afael unwaith arno, ni ollyngent byth yn rhydd; oblegyd yr oeddent yn gwybod mai addysg oedd eu bywyd. Darfu iddynt ymlid o'r tir yr anifeiliaid gwylltion, ac adeiladu ysgolion; yr oeddent yn ymladd am ryddid, dywedent wrth y doeth a'r da, gwelwch, mae ein prif ysgolion, ein heglwysi, ein hysgolion, ein senedd, ein hargraffwasg, yn dweyd wrthym yr oll ydych chwi yn wybod. Darfu iddynt wneyd camgymmeriadau, mae'n wir; darfu iddynt syrthio i bechodau, ambell waith aent yn ol ac nid yn mlaen; ond yn raddol fe ddarfu i'r serch mawr at wybodaeth dori i lawr ragfuriau anwybodaeth, ac felly fe dyfodd y genedl i fyny i fawredd a gogoniant.

Ac mae yr un peth yn wir am yr addysg foesol ag wyf wedi grybwyll yn barod. Oes dim eisiau i fechyn a merched, diolch i Dduw! gael allan bob peth drostynt eu hunain. Mae ganddynt wrth law, brofiad y rhai sydd wedi bod o'u blaen, rhai sydd wedi gwneyd camgymmeriadau, wedi profi chwerwder, ffolineb, anwybodaeth, a phechod. Mae y profiad yma o eiddo ereill yn gymhorth mawr tuag at fyw yn iawn; ac os nad yw bechgyn a merched yn hollol ffol, fe wnant o leiaf rywfaint o ddefnydd o hono. Os gwnant ddefnydd da o hono, ac os gwrandawant ar addysg y rhai sydd wedi myned o'u blaen, fe gant fod hyn yn wir, bod addysg yn fywyd. Os ydynt i'r gwrthwyneb, yn chwerthin am ben eu tad a'u mam, yn gwthio yn mlaen yn eu ffordd ffol eu hunain, nid ydynt ond trysori iddynt eu hunain, fethiant, trueni, a marwolaeth. Ond mae'n rhaid iddynt hefyd ddysgu oddiwrth eu profiad eu hunain; mae yn rhaid iddynt ymafael mewn addysg drostynt eu hunain, a'i gwneyd hi yn fywyd iddynt. Mae'n rhaid iddynt sylwi, a chymharu, a gweled y fath weithredoedd sydd yn arwain i drueni, y fath i ddedwyddwch a bendith, ac felly wneyd addysg yn hanfod eu bywyd.

Nid yw yr amser yn caniatau i mi ond ychydig eiriau yn rhagor. Mae hon yn olygfa hyfryd a dwys i mi. Am chwarter canrif yr wyf wedi bod yn athraw yr Ysgol Sul; ac yr wyf yn teimlo heddyw yn fwy nag erioed bwysigrwydd gwaith yr athraw. Yr wyf wedi bod yn siarad wrth y plant yma, ond mae y geiriau yma yn awr yn cael eu hanerch atoch chwi, athrawon. Mae haneswyr wedi gwneyd llawer o lysoedd a breninoedd, maesydd brwydrau, a seneddau, ond y rhai sydd yn creu cenedl, yn penderfynu ei thynged, yw y bechgyn a'r merched cyffredin nad ydynt yn cyfrif ond fel ffigyrau mewn cofnodion ystadegol. Mae dyn doeth wedi dweyd fod y creaduriaid bychain ydynt wedi adeiladu i fyny, yn ystod eu bywyd neu ar ol hyny, glogwyni sialc a gwelyau cwrel y ddaear yma, wedi chwareu rhan mwy pwysig yn hanes y byd nâ'r *mammoths* a'r *elephants*; ac yr wyf yn sicr y gellir dweyd yr un peth am y plant bychain yn nghartrefleoedd y bobl wrth eu cymharu â llysoedd a breninoedd. Gall llysoedd gynllunio, a breninoedd deyrnasu, ond tu cefn i'r ddau, mae y bobl yn

gweithio allan eu tynged eu hunain, yn dirymu penderfyniadau maes y frwydr, yn chwyldroi cyfundrefnau o lywodraeth, ac yn dymchwelyd gorseddau breninoedd.

Mae pob peth gan hyny, yma, lle mae y plant:—gwyddor, masnach, cyfreithiau, crefydd, pob peth yn eu dwylaw bychain hwy. Dywedir fod gwreiddiau y winwydden wyllt yn India, wrth ymledu yn mhob cyfeiriad, yn treiddio i mewn, yn dadsylfaenu ac yn dinystrio temlau mawreddog a phalasau gorwych,—ei bod yn gweithio ei ffordd hyd y nod i'r *granite* cadarn ac yn ei hollti yn ddarnau. Felly mae yn y genedl. Mae gwreiddiau y winwydden wyllt wedi eu cuddio allan o'r golwg, ond rhedant o dŷ i dŷ, o ysgol i ysgol, o heol i heol, ac hyd y nod o dref i dref, yn treiddio i'r dyfnderoedd, ac yn dadsylfaenu ac yn dinystrio ar y ffordd. Fe ddichon i freninoedd beidio gwneyd cyfrif o honynt, i seneddau fethu gofalu am danynt; ond yn y cyfamser, maent yn cael allan eu ffordd eu hunain, a gallant wneyd yr hyn maent wedi wneyd o'r blaen,—dwyn dinystr disymwth ar y sefydliadau gan y rhai yr esgeulusid hwy, ond y rhai yr oeddent hwy yn ddigon cryf i'w dinystrio.

Ac yn awr, fechgyn a merched, un gair i chwi cyn terfynu. Heddyw, yr wyf am eich *enlistio* i gyd yn achos goleuni a gwybodaeth. Na fydded fod un yn cael ei adael allan o'r *list*. Gadewch i mi gyfeirio at yr ieuengaf sydd yma,—yr un bychan sydd wedi deall leiaf y peth wyf wedi ddweyd. Edrych yn awr yn fy wyneb, fy mhlentyn, a gad i mi i edrych i dy wyneb dithau. Yr wyf yn dweyd fod dy eisiau arnaf, mae dy eisiau arnaf *yn awr*! Ond mae dy eisiau arnaf i'r ochr iawn, mae dy eisiau arnaf i achos daioni ac achos Duw. Cymmer afael ar yr hyn wyf yn gynnyg i ti: oblegyd mae y peth wyf yn gynnyg yn fywyd, ac os na welaf i di byth mwy, na siarad wrthyt byth mwy, cofia fy mod wedi dweyd, o flaen y tystion hyn, "Ymafael mewn addysg, ac na ollwng hi; cadw hi; canys dy fywyd di yw hi."

YR AIFFT A CHANAAN.

MOR MARW, IORDDONEN, JERICHO.—LLYTHYR XV.

Dros fynyddau sychion, tywodlyd, yr ydym yn myned at y Mor Marw. Dim gwlaw ar y daith heddyw: mae'r gwres a'r syched yn gosod rhai o'r teithwyr dan brofedigaeth drom. Dygwyddodd anhap tost heddyw, yr hwn a berodd ddiflasdod i bawb. Yr oedd yn rhaid i'r bobl ieuainc gael gyru etto; a'r canlyniad fu niwed mawr i un o'n boneddigesau. Yr oeddym dan arweiniad boneddwr o Venice, yn Itali. Yr oedd y foneddiges dan sylw yn mlaenaf ond rhyw ddau neu dri. Gofynodd

yr arweinydd iddi, a oedd hi yn farchoges dda, atebodd hithau na wyddai hi ddim. Yna dywedodd yntau mai gwell oedd iddi gadw y tu ol iddo ef. Ond gyda hyny dyma ddau ddyn ieuanc yn gyru i ffwrdd, a hithau ar eu hol, a chyn pen mynyd, cafodd y llawr yn bendramwnwgl. Bu raid ei chario hi yn *ddirect* i Jericho, ac oddiyno dranoeth i Jerusalem, lle y gorfuwyd arni aros nes i'r *steamer* hono ddyfod i Jaffa, yr hon oedd i'n cludo ffwrdd o Wlad Canaan. Ond i barhau'r daith. Golwg ryfedd ar y wlad, dim blewyn o las i'w weled mewn un man. Dim rhyfedd fod yr ardal yma yn cael ei galw yn ddiffeithwch —Diffeithwch Judea. Mae ar bob llaw yn debyg fel pe byddai wedi dyoddef oddiwrth y tan a ddinystriodd Sodom a Gomorrah (Gen. xix). Y mor yn y pellder yn edrych fel mor o blwm, mynyddoedd rhamantus yr ochr draw, ac ar y llaw aswy dacw linell las, ffrwythlawn, trwy yr hon y mae afon yr Iorddonen yn rhedeg. Rhenir y mor yn ddwy ran wahanol, y rhan ogleddol lawer iawn yn ddyfnach. Mae y rhan ogleddol yn 1200 o droedfeddi o ddyfnder, tra nad yw'r deheuol ddim dros 18 troedfedd. Unir y ddau gan gulfor bychan, El Masraa. Hyd y mor yw 39 milltir, a'i led o 8 i 12. Nid yw'r enw Mor Marw ddim yn dygwydd yn y Beibl, ceir ef yn gyntaf yn Justin ac yn Pausanias. Ceir enwau ereill yn yr Ysgrythyrau, megys "Mor y Dwyrain" (Ezec. lxvii. 18), "Mor Heli," a "Mor y Rhos" (Deut. iii. 17, a iv. 49); yr enw a rydd Josephus iddo yw y "Mor Asphalt." Am y cyfnewidiadau a gymmerasant le yma, gwel Gen. xiv., xix.; Deut. xxix. 22; Zeph. ii. 19; Amos iv. 11; Esa i. 9; 2 Pedr ii, 6; Judas 7; Luc xvii. 29. Hwn yn ddiamheu yw y mor rhyfeddaf yn y byd. Mae yma arwyddion amlwg o ryw gymmysgedd rhyfedd wedi bod—arwyddion tan ar bob llaw. Allwn ni ddim ond cyffwrdd yn fyr â gwahanol nodweddion y lle. Tebyg iawn ei fod o bryd i bryd etto yn agored i ddaeargrynfâau. Yma gynt yr oedd dyffryn prydferth a ffrwythlawn Siddim. Dywedir yn yr ardal eu bod yn gweled rhanau o'r adeiladau a phileri ar waelod y llyn pan fo'r dwfr yn isel; dywedir pethau mor ddisail am rai o lynoedd Cymru. Peth arall disail a ddywedir yw nad all aderyn nofio yn groes iddo, fod y tawch yn eu lladd. Gwelir adar yn fynych yn hedeg heibio. Tebyg iawn nad oes dim pysgod ynddo. Mae'r pysgod sydd yn dyfod i lawr o'r Iorddonen yn marw yn fuan iawn, yr achos o'r hyn yw fod y dwfr mor hallt. Mae cymmaint o halen yn y dwfr fel mai peth rhwydd iawn i rai cwbl annghyfarwydd yw nofio, byddai bron yn anmhossibl iddynt gael yr oll o'r corff dan y dwfr. Cefais i fod yr ymolchi ynddo yn hyfryd iawn, er fod ereill yn achwyn. Mae yn debyg os bydd y croen yn deneu, neu ran o'r corff wedi digroeni, fod y llosgi braidd yn annyoddefol. Dywedir fod y dwfr yn cynnwys halen hyd at y bedwaredd ran—*almost to saturation*, fel y dywedir. Mewn tri man ar y llyn ceir halen gwyn pur, ceir ef yn fynych yn grystynau mor drwchus, fel y mae dyn ar geffyl yn gallu myned drosto. Gwerthir llawer o halen oddiyma. Heblaw halen ceir yma bitumen neu asphalt, sylwedd tebyg i pitch. Ystyrir hwn fel yn arwydd o natur folcanaidd yr ardal. Mae blas y dwfr yn debyg i alum, yn chwerw ac yn llosgi fel ag i achosi pollethi ar rai. Fel hyn y rhoddir

yr *analysis* gan un: Chloride of Sodium, 8; Potasium, 1; Calcium, 3. Mae'r *specific gravity* yn rhywbeth tua 1200, a chyfrif fod dwfr pur yn 1000. Wrth gwrs, mae'n gwahaniaethu mewn gwahanol fanau ac ar wahanol amserau. Mae'r mor yn gorwedd dair mil ar ddeg o droedfeddi islaw *level* Mor y Canoldir; ac er cymmaint o ddwfr sydd yn rhedeg iddo, ac y mae amryw afonydd heblaw yr Iorddonen yn rhedeg iddo, etto y mae gwyneb y mor yn gostwng yn hytrach nâ chodi. Mae yn naturiol i ofyn, sut y mae hyn yn bod? Meddylid unwaith fod y dwfr yn dianc trwy sianel danddaearol, ond ni all hyny fod, o blegid y mae *level* y Mor Coch yr un peth â *level* Mor y Canoldir, ac nid yw dwfr yn gallu rhedeg i fyny. Yr esponiad cyffredin yn awr yw, fod yr holl ddwfr yn dianc yn anwedd i'r cymmylau, fod mwy o ddwfr felly yn dianc trwy offerynoliaeth gwres nag sydd yn dyfod i mewn trwy yr holl afonydd i gyd. Mae'r gwres yma mae yn debyg yn fawr iawn, yn enwedig yn nhymhor yr haf; yr oedd yn fawr yr amser yr oeddwn i yno. Gwelsom lawer o halen ar y traeth, yn dalpau mawrion, ac wrth gwrs, yr oedd yn rhaid dod a pheth o hwnw adref. Peth arall a gawsom yno oedd locustiaid; yr oedd yno filoedd, wrth bob tebyg wedi eu chwythu i lawr i'r dwfr a'u bwrw fyny gan y dwfr drachefn. Nid oeddynt yn fyw. Peth arall a welsom oedd hesg mawrion, ac nid hir y buom cyn tori un neu ddau i ffurf briodol a gwneyd cawell i ddau o'r locustiaid, a felly y daethpwyd a hwy adref. Un sylw arall, ac yna gadawn y Mor Marw. Cofiwch Wraig Lot. Yr ydym yn dyfynu o "Our Work in Palestine:" "Yn mhlith llawer o bethau a glywsant, oedd un yn nghylch cerfddelw ryfedd, a elwir 'Gwraig Lot,' a phenderfynasant wneuthur ymchwiliad. Cafwyd y gerfddelw gerllaw y Mor Marw, rhyw 1000 o droedfeddi uwchlaw ei *level*. Rhyw nodwydd dal o graig ydyw, ac y mae yn dwyn tebygolrwydd neillduol i fenyw Arabaidd a phlentyn ar ei hysgwyddau. Nid yw y stori Arabaidd yn nghylch Gwraig Lot yn gwahaniaethu ond ychydig oddiwrth hanes y Beibl. Dywedant fod saith dinas y gwastadedd, a'u bod oll wedi eu dinystrio yn wyrthiol gan y Mor Marw fel cosp am eu pechodau. Y proffwyd Lot a'u deulu yn unig a ddiangasant y dinystr cyffredinol. Cafodd efe rybudd ddwyfol i gymmeryd yr oll a feddai a ffoi i'r dwyrain, gyda gorchymmyn pendant na fuasai yr un o honynt yn edrych yn ol. Darfu i Wraig Lot, yr hon oedd o'r blaen wedi gwawdio swydd broffwydol ei gwr, anufuddhau i'r gorchymmyn, a chan droi ei golwg yn ol i weled y dinystr, trowyd hi yn biler o graig.

"Mae teithwyr yn mhob oes wedi cael allan fath o 'Wraig Lot' yn y pileri ag y mae dylanwadau'r awyrgylch yn barhaus yn wahanu oddiwrth y *masses* mawrion o halen sydd yn y rhan ogleddol o'r Mor Marw; ond diflanol a dygwyddiadol ydyw y rhai hyn oll. Nid yw y graig a ddarganfyddwyd genym ni yn ateb i ofynion yr hanes Ysgrythyrol; ond nid oes yr un amheuaeth nad y gwrthddrych hwn sydd wedi helpu i gadw yn fyw trwy'r blynyddoedd y traddodiad lleol.

"Yr oedd yr haul ar fachludo pan gyrhaeddasom y fan, a suddodd yr haul rhuddgoch tu cefn i'r bryniau gorllewinol, gan daflu pont o

oleuni dysglaer dros wyneb tawel y llyn. Fel yr oeddym yn syllu ar *outline* rhyfedd y graig—wedi ei dynu allan ar y cyntaf i *strong relief*, ar draws lliwiau tyner etto dysglaer yr olygfa amgylchynol, a thrachefn wedi ymgymmysg â'r cysgodau fel yr oeddent yn graddol ddyfnhau, ac wedi ymgolli yn nghanol y tywyllwch cyffredinol fel yr oedd y nos yn cyflym nesu, ymollyngasom yn ddiarwybod i ni i ddylanwad y chwedl wyllt Arabaidd, nes oeddym bron yn gallu credu ein bod wedi gweled ffurf gwraig y proffwyd yn bwrw ei golwg yn drist ar ol ei chartref dinystriedig yn nyfnderoedd anwybodadwy y mor melldigedig hwnw."—(*Our Work in Palestine, p.* 323-4.

Wedi esgyn ar gefn ein ceffylau drachefn, nid hir y buom cyn dyfod at yr Iorddonen, lle y darfu i lawer o honom ymolchi. Darfu i rai hefyd ddwyn poteleidiau o'r dwfr adref gyda ni. Yr oedd dau neu dri o'r parti yn awyddus iawn am gael eu bedyddio trwy drochiad yn yr Iorddonen, yn y fan lle y dywedir i Ioan fedyddio Crist, a lle mae pererinion bob blwyddyn yn ymgasglu ar ddydd Llun y Pasg, i barhau mewn coffadwriaeth am y Bedyddiwr enwog. Ond nid oedd gan y gweinidog parchus at yr hwn y darfu i ddwy foneddiges Americanaidd wneuthur appel, yr un wisg o flew camel, na'r un wregys o groen, fel yr eiddo Ioan, na'r un dilledyn offeiriadol, megys gwn du, i'w ddefnyddio yn y lle, ac felly, ni chafodd y "dysgyblion" yma eu dymuniad, sef cael eu bedyddio yn yr Iorddonen.

Yn mhen ychydig cychwynasom etto—tua Jericho yn awr. Teimlo yn flinedig iawn, ac etto yn ceisio gweithio yn mlaen goreu y gallaswn. Gorfod pasio wrthyf fy hun trwy le pur anial, ac wedi hyny trwy dai peryglus yr olwg arnynt, ac heibio i ddynion mor beryglus a hyny yr olwg arnynt. Dyfod i ben y daith fodd bynag yn ddyogel bob yn ychydig—gweled y *tents* yn llawenydd calon heno etto. *Tents* dyeithr gerllaw iddynt, *tents* yn perthyn, mae'n debyg, i'r *Duke of Sutherland*. Bu'r *Duke* a'i barti yn garedig iawn; anfonasant i ofyn a oedd rhywbeth a allasent wneuthur i'r foneddiges oedd wedi cael anlwc.

Nid oes ond ychydig o'r hen fagwyrydd yn aros yn Jericho. Y peth sydd yn tynu fwyaf o sylw yno yw y ffynonau a'r ffrydiau. Ystyr y gair Jericho, mae'n debyg yw tarth. Hon oedd y mwyaf enwog o'r 30ain dinasoedd breninol, ac yr oedd ganddi frenin ei hunan (Josua xii. 9). Mae'n gorwedd 17 milldir o Jerusalem, 5 o'r Mor Marw, a 5 o'r Iorddonen, a bron ar gyfer y man croesodd yr Israeliaid yr afon i ddyfod i Wlad Canaan, ac felly Jericho oedd y ddinas gyntaf iddynt ddarostwng. Mae'r gwres yn y parth yma yn angerddol yn yr haf, ond ar yr amser yr oeddym ni yno, yr oedd yn hyfryd iawn. Mae'r ardal gan hyny yn hynod am ei ffrwythlondeb, ond rhyw edlychod gweinion ydyw'r trigolion. Mae'r palmwydd yn rhagori yma, fel y darfu iddynt roddi enw i'r lle, sef "dinas y palmwydd" (Deut. xxxiv. 3). Cyrhaeddodd enwogrwydd mawr yn foreu (Josua xii. 9), ond collodd ei hannibyniaeth trwy offerynoliaeth Josua (vi.), yr hwn a waharddodd ei hailgodi (vi. 26). Gweler hefyd 1 Bren. xvi. 34, a 2 Sam. x. 5; 2 Bren. ii. 4, &c.; 2 Cron. xxviii. 15; Nehem. iii. 2;

Matt. x. 29; Marc x. 46; Luc xix. 1; Jos. xvi. 1; xv. 7; Luc x. 30. Diffeithwch y Temtasiwn gerllaw, Matt. iv. 1. Y daith yfory trwy le peryglus iawn, sef y lle rhwng Jericho a Jerusalem, a'r lle y syrthiodd y gwr hwnw gynt yn mhlith y lladron.

S.

HANDEL.

Ganwyd George Frederick Handel, yn Halle, Lower Saxony, ar y 23ain o Chwefror, 1684. Mab ydoedd i feddyg o Halle, ac yr oedd ei dad yn 60 oed pan aned Handel y cerddor. Fel y rhan fwyaf o gerddorion hynod, canfyddid gogwyddiad cryf ynddo at gerddoriaeth pan yn ieuanc iawn. Yr oedd Dr. Handel, sef tad y cerddor, yn bur anfoddlon i'w fab droi o'r neilldu y gyfraith, i'r hon alwedigaeth y bwriadai ei ddwyn i fyny, er mwyn cerddoriaeth, fel y rhoddod orchymmyn caeth iddo nad oedd i gyffwrdd â'r un offeryn cerddorol. Ond lle bynag y canfyddir talent o radd uchel, bydd yn sicr o dori dros ben pob anhawsderau. Llwyddodd Handel i ddyfod o hyd gafael i'r offeryn a elwid yn y wlad hono *clavichord*, offeryn yn dwyn tebygolrwydd i'r *piano*, a'r hwn a elwid yn Lloegr yn *spinet*. Mewn modd dirgelaidd llwyddodd Handel bach i gael y *clavichord* i'r ystafell uwchaf yn y tŷ, a thybir yn gryf i'w fam roddi llaw o gymhorth iddo, o herwydd fel rheol y mae y mamau yn fwy tyner i'r plant nâ'r tadau. Beth bynag am hyny, yno y byddai Handel yn chwareu yr offeryn bychan pan y byddai y teulu yn cysgu. Cymmerodd amgylchiad hynod le, pan nad oedd Handel etto yn 7 mlwydd oed, i'r hwn amgylchiad y gellir priodoli ei lwyddiant i raddau helaeth. Pan oedd yn ymyl 7 mlwydd oed, aeth gyda'i dad i balas y Duc of Saxe-Weisenfels, lle y caniateid iddo fwy o ryddid i ddylyn ei hoff waith. Un diwrnod, pan oedd Handel bach yn chwareu yr organ ar ol y gwasanaeth boreuol, cyffyrddwyd â llinynau calon y Duc gan seiniau melodus Handel ar yr organ, fel y gofynodd y Duc i'w ystafell-was pwy oedd yn chwareu yr organ. "Sire," ebe fe, "fy mrawd ydyw." Dylid crybwyll fod ystafell-was Duc of Saxe-Weisenfels yn hanner brawd i'r cerddor. O'r awr hono allan, daeth i fwy o sylw, a chododd y bachgenyn hynod hwn i fri ac edmygedd. Bu y Duc yn eiriol gan ei dad i ganiatau i'r bychan ddylyn cerddoriaeth, a rhoddi i fyny bob meddwl am y gyfraith, ac wedi hir ddadl, llwyddodd ganddo. Gosodwyd y llanc Handel o dan addysgiaeth cerddor medrus o'r enw Zackau, organydd Eglwys Gadeiriol Halle. Pan oedd Handel rhwng 8 a 9 mlwydd oed, gosodid ef i lanw swydd yr organydd yn yr Eglwys Gadeiriol. Pan yn 9 mlwydd oed, cyfansoddodd ranau o wasanaeth yr Eglwys yn lleisiol ac offerynol, a darfu iddo yn yr oedran tyner yma drechu ei athraw, yr hwn oedd

yn bur hoff o hono. Tua'r adeg hon cawn ei athraw yn gwneyd addefiad cyhoeddus â gwyneb agored o hyn. Ffaith hynod yn mhlith cerddorion, onide, fod y naill gerddor yn rhoddi y flaenoriaeth i'r llall. Yn 1698, pan oedd Handel tua 13 mlwydd oed, anfonwyd ef i Berlin, lle yr oedd yr *opera* mewn bri mawr o dan nawdd Elector Branderburgh, wedi hyny brenin Prwsia. Nid oedd modd i dalent gerddorol o fath un Handel fod yn guddiedig i benadur a ymffrostiai yn ei chwaeth gerddorol. Tynodd ei sylw yn y fan, a gwnaeth y penadur lawer iawn drosto, a chynnygiodd ei anfon drosodd i Italy ar ei gost ei hun, yn nghyd â chael cyfleusderau ereill er ei berffeithio yn y gelfyddyd; ond yn anffodus, yr oedd ei dad yn meddu ar yspryd balch, ac annibynol, fel y gwrthododd yn mhob modd ganiatau i'w fab gael myned.

Yn Hamburgh y cawn Handel nesaf yn dylyn ei hoff waith, ac yn cyflwyno ei ennillon i'w fam weddw,—yr oedd erbyn hyn yn amddifad, wedi claddu ei dad. Tra yn trigianu yn Hamburgh, cymmerodd amgylchiad le a fu agos a lladrata y byd o dalent annghymharol Handel. Yr oedd yno gerddor ieuanc, a chyfaill mynwesol i Handel o'r enw Mattheson. Mewn cystadleuaeth gerddorol yno, darfu i Handel ei drechu, ac felly, ei amddifadu o'r brif wobr. Ennynodd hyn ei lid a'i ddigter yn fawr tuag ato, fel yr heriodd ef i ymladd gornest, tarawodd Mattheson Handel yn ei fynwes â blaen ei fidog, ond yn hytrach na'i daro yn ei galon fel y tybiai, amddiffynid calon Handel gan hen lyfr tonau a ddygwyddai fod yn ei logell. Darfu i'r ddau gerddor ymladd gornest, fel y gwna dynion ieuainc Germany hyd y dydd hwn, a hyny yn aml am yr annghydwelediad dystadlaf. Yn fuan iawn ar ol hyn cawn eu bod eilwaith yn gyfeillion mynwesol. Dywed Mattheson mewn nodyn, "Cefais yr hyfrydwch a'r pleser mawr o gael Handel i giniaw gyda mi, ac yr oeddem yn well cyfeillion nag erioed." Y mae dynion athrylithgar yn cwympo allan weithiau, ond yn gwneyd i fyny yn fuan.

Pan yn 14 oed y cyfansoddodd Handel ei *opera*, "Almeria," ac yr oedd llwyddiant y darn hwn mor fawr fel y datganwyd ef am 30 noson yn olynol. Symmudodd o Hamburgh i Italy, ac yn Florence y cyfansoddodd ei *opera*, "Rodrigo." Teithiodd oddi yno i Venice a Rhufain, a derbyniwyd ef yn mhob lle gyda pharch ac edmygedd.

Treuliodd chwech mlynedd yn Itali, lle y daeth yn gydnabyddus â'r enwog Corelli. Chwareuodd a chyfansoddodd lawer o ddarnau cerddorol, a gwrthwynebodd hefyd lawer cynnygiad a wnaed i'w ennill drosodd i gofleidio y grefydd babaidd. Dywedai ei fod yn benderfynol i farw yn aelod o'r cyfundeb Protestanaidd, yn yr hwn y ganed ac y maged ef.

Ar ei ddychweliad i'w wlad enedigol, aeth i Hanover. Yr oedd cyssylltiad llys Hanover a llys Llundain y fath y pryd hwnw, fel y tueddwyd ef i dalu ymweliad â Lloegr. Wedi iddo yn gyntaf dalu ymweliad â Halle i weled ei fam oedranus, daeth drosodd i Loegr yn y flwyddyn 1710. Yr oedd Elector Hanover, ac wedi hyny Sior I, newydd bennodi tal blynyddol iddo, yr hwn dal a dderbyniai ar yr ammod nad

oedd hyn i'w atal i gario allan ei gynllun mewn perthynas â Lloegr. Yr oedd enw Handel yn bur adnabyddus yn Lloegr cyn ei ddyfodiad, ond y mae yn ffaith hynod, mai yr hyn a gafodd mewn ffordd o addaliad am ei lafur cerddorol ydoedd, enllib, gwawd, a gogan diseremoni y chwaethus Addison. Yn Lloegr y cyfansoddodd yr *opera*," Rinaldo," a daeth i fri mawr yn mysg y bendefigaeth, fel y darfu i amryw o honynt grefu arno i dreulio gweddill ei oes yn y wlad hon. Ond gwrthododd Handel, a hyny yn benaf o barch i'w noddwr yr Elector of Hanover, i lys yr hwn y dychwelodd. Ond yn mhen yspaid o 2 flynedd cawn ef eilwaith yn gosod ei draed ar dir Lloegr, yn ysgrifenu *operas*, a chyfansoddodd hefyd *Te Deum* a *Jubilate* i'r Frenines Anne. Datganwyd hwynt yn Eglwys Gadeiriol St. Paul, ac yr oedd ei Mawrhydi yn bresenol.

Ar farwolaeth y Frenines ac esgyniad Sior I, collodd Handel nawdd y llys, a hyny o herwydd ei hir absenoldeb o Hanover, yn nghyd â'r ffaith ei fod yn defnyddio ei dalentau i glodfori yn y *Te Deum*, yr hyn oedd yn wrthwynebol i chwaeth a llywod-ddysg y Brenin. Ond nid hir y bu yr ystorm cyn myned heibio. Y mae Hogarth yn ei " Musical History " yn crybwyll a ganlyn.—" I leddfu digllonedd y Brenin, darfu i'r Baron Kilmansegge, hen noddwr pwysig i Handel. ddyfeisio cynllun ag oedd yn anrhydedd i'w ben a'i galon. Neillduodd ychydig o'r bendefigaeth i gymmeryd gwibdaith ar afon Thames ; ac wedi llwyddo i gael addewid gan y Brenin y buasai yn uno â'r cwmni, cynghorodd Handel i gyfansoddi cerddoriaeth at yr achlysur. Felly cyfansoddodd y darn gorchestol hwn, a elwir " Water Music," at offerynau gwynt, (*Wind Instruments*). Chwareuid y darn hwn mewn cwch a ganlynai yr hwn yr eisteddai y Brenin ynddo. Swynid calon a theimlad y Brenin gymmaint gan brydferthwch a thlysni y gerddoriaeth fel y ceisiodd enw y cyfansoddwr. Mewn atebiad, dywedai y Baron mai cynnyrch meddwl hen was ffyddlon i'w Fawrhydi oedd, sef Handel, yr hwn yn ymwybodol o'r trosedd a gyflawnodd, ni feiddiai ddynesu ger bron ei Fawrhydi heb yn gyntaf dderbyn maddeuant. Toddodd calon a digllonedd y Brenin, fel y derbyniodd Handel i'w ffafr, a bu yn hynod garedig iddo. O'r amser yma hyd ei farwolaeth, gwnaeth Handel Loegr yn lle ei drigfan."

Gweithiodd Handel yn galed gyda cherddoriaeth, yn ngwyneb lluaws o gydymgeiswyr eiddigeddus, a mynych nychdod, yn nghyd ag afiechyd trwm a ddygodd arno ei hun trwy orlafur.

Tra yr oedd y canwr poblogaidd Farinelli yn boddhau y cynnulleidfaoedd ; Porpora, cyfansoddwr moeswych y dydd, yn cario y llawryf, nid oedd Handel yn cael ei barchu na'i fawrhau modd y teilyngai. Daeth y bardd Pope i'r adwy, ac amddiffynodd ef, a phan yn crybwyll am ei allu a'i ddylanwad annghymharol yn llywodraethu yr *Orchestra*, dywed,—

" Lo ! giant Handel stands
Like bold Briareus with his hundred hands."

Yr oed hyn yn ormod i'w oddef gan y ffraethyn anrasol Swift, yr hwn,

pan yn cymharu Handel â chydymgeisydd iddo am gymmeradwyaeth y dydd, a ddywed,—

> “Some say that Signor Bononcini,
> Compared to Handel is a ninny;
> Whilst others vow that to him Handle
> Is hardly fit to hold a candle;
> Strange that such difference should be
> 'Twixt tweedle dum and tweedle dee.”

Treeynon. *(I'w barhau.)* J. W.

ESGUSODION.

“Gan y mae crefydd yn beth mor annaturiol, fel y teimlwn ein bod yn cael ein cyfiawnhau am esgeuluso meithrin llawer o gariad ati hi a'i chyfreithiau.” Dyma esgus cyffredin arall. Y mae duwinyddiaeth gan rai gwledydd ei rhan i'w weled yn un cyffredin iawn. Etto ni fu erioed y fath esgus mor ddisail—crefydd yn beth annaturiol! O ba le y daeth y fath ddychymmyg? Beth sydd wedi bod yn achos o hono? Nid anianyddiaeth hanesyddol, oblegid dysg hyny i ni nad oes un ysgogiad wedi bod mor gyffredin o'r oesoedd cyntaf hyd yn bresenol, a'r ysgogiad crefyddol, a byd sicr, ni ddylai yr hyn sydd gydoesol â'r hil ddynol gael ei osod allan fel peth annaturiol. Beth sydd wedi achosi y syniad cyfeiliornus? Nid adnabyddiaeth o egwyddorion y natur ddynol, oblegid mae y sawl sydd wedi treiddio ddyfnaf i beth o'r natur hon, trwy ei ymchwiliad, wedi canfod fod yn yr enaid dynol rywbeth sydd yn ymofyn ac yn awyddus am gael allan rywbeth tu allan ac uwch nag ef ei hunan, yr hyn a alwn yn Dduw; ac hefyd am rywbeth uwch a mwy parhaus na'r bywyd presenol, yr hyn a alwn ni yn anfarwoldeb. Pa fodd y mae cyfrif gan hyny am fod dynion i'w cael sydd yn esgeuluso ac yn gosod allan grefydd fel peth annaturiol? Hawdd deall y gwaith o ateb y gofyniad. Y mae dynion yn dueddol i farnu pethau yn ol eu tueddiadau neillduol eu hunain; a chan ei fod yn digwydd nad yw rhai yn gofalu ond y peth nesaf i ddim am grefydd eu hunain, dychmygant ei bod yn beth nad yw dynolryw yn gyffredinol yn gofalu dim am dani, yn beth nad yw yn anwyl yn eu golwg, fel peth mae y natur ddynol yn gashau.

Ond pa fodd y mae rhai dynion yn cael eu tueddu i gashau crefydd, os yw yn beth mor naturiol ag y credwn ni ei bod i ddyn? Gadewch i ni ateb y cwestiwn trwy ofyn un arall: Beth yw y rheswm fod rhai dynion yn esgeuluso, neu o leiaf yn ddiofal yn nghylch pethau ereill ag y cydnabyddir yn gyffredinol eu bod yn naturiol i ddyn; y fath, er engraifft, a gweithgarwch, cymdeithasu gydag ereill neu gyfeillgarwch? Paham y mae rhai dynion yn ddiofal yn nghylch dirwest, gonestrwydd, a phurdeb moesol? Gellir barnu fod llawer yn meddwl eu bod yn bethau annaturiol, o leiaf, a barnu yn ol eu hymddygiadau.

Beth yw y rheswm? Nid oblegid fod eu natur yn elynol i'r cyfryw; ond oblegid nad ydynt wedi cael eu donio â thueddiadau naturiol at weithgarwch, at gymdeithasu, &c., ac oblegid fod eu natur, eu tueddiadau gwreiddiol, yn rhywfodd wedi cael eu hesgeuluso, eu nychu a'u camarwain, neu gyda golwg ar bethau fel yma—Ni ddarfu i'r rhieni dynu allan a rhoddi cyfeiriad iawn i egwyddorion cynhenid gweithgarwch, cymdeithas, cyfeillgarwch, &c., yn y dosparth yma o ddynion pan yn ieuanc; neu darfu iddynt hwy eu hunain, wrth dyfu fynu, esgeuluso neu wneyd cam â hwy eu hunain, ac yna ymgaledu mewn anffyddiaeth, diogi a drygioni; ond a oes gan y cymmeriadau yma, y rhai ydynt yn cashau gweithgarwch, cymdeithas a chyfeillgarwch, reswm da oblegyd hyny i ddweyd mai peth annaturiol i ddynolryw yw bod yn weithgar, yn gymdeithasgar a chyfeillgar? Nid oes yr un dyn o berchen synwyr cyffredin a ddywed y fath beth. Felly yn union gyda golwg ar grefydd. Nid oes gan un dyn reswm da dros ei galw yn beth annaturiol yn unig oblegyd nad yw ef yn cael ond ychydig neu ddim ynddi sydd yn unol a'i deimladau ei hunan; ac ychwanegwn trwy ddywedyd, nad oes yr un rheswm dros ei galw yn annaturiol o gwbl. Y gwirionedd yw, nid crefydd ond anughrefydd neu ddrygioni sydd beth annaturiol. Nid y sawl sydd yn parchu, yn caru ac ymarfer â chrefydd bur sydd yn gweithredu yn groes i dueddiadau a chynhyrfiadau y natur ddynol, ond y sawl sydd yn gweithredu yn groes i'w heirchion, y rhai sydd yn byw bywydau pechadurus, isel a gwarthus. Ydyw, y mae y dyn anughrefyddol yn gweithredu mor annaturiol a'r fam hono, os oes un i'w chael, sydd yn cashau ei phlentyn, neu y plentyn hwnw sydd yn cashau ei dad a'i fam tyner eu calon.

"Ond y mae crefydd wedi bod yn achos o'r fath ddrygau yn y byd, fel y meddyliwn ni mai y peth goreu i ni i'w wneyd yw cadw draw oddiwrthi hi a'i sefydliadau mor bell ag sydd bosibl." Ond atolwg, pa ddrygau mae crefydd wedi bod erioed yn *achos* o honynt? Gwyddom fod llawer o ddrygau wedi bod yn gydfynedol â chrefydd yn mhob oes; fod y drwg a'r da wedi, ac yn parhau i fyned yn mlaen megys law yn llaw; ond ai crefydd oedd ac yw yr *achos* o ddrygau? A fuasai llai o'r drygau sydd gan y gwrthwynebwr mewn golwg, pe na buasai crefydd wedi bod yn y byd erioed? Yr ydym wedi clywed am erledigaethau, ond y mae dynion wedi erlid, ac yn parhau i erlid eu gilydd, heb feddwl dim am grefydd. Y gwir yw, peth anughywir ac annghyfiawn yw dweyd fod crefydd wedi bod yn achos o'r fath ddrygau, oblegid buasent yn ffynu hebddi hi, ïe, a buasent yn llawer mwy lluosog. Y gosodiad cywir yw, nid fod crefydd wedi bod yn achos o honynt, ond ei bod wedi bod yn bwnc wrth ddadleu yr hwn y mae nwydau dynion wedi cael eu gosod ar dân; tra y maent wedi ymrafaelio a'u gilydd yn nghylch y llythyren farw, neu y cysgod, maent wedi bod yn ddiofal, i raddau helaeth iawn, o'r sylwedd. Buasai y nwydau yna yn llosgi yr un mor ffyrnig, o leiaf, os nid llawer mwy yn nghylch pynciau ereill, pe na buasai crefydd wedi bod yn y byd erioed. Ac yn mhellach, yr ydym yn cael ein hawdurdodi gan

hanes a sylwad, i haeru y buasai llawer mwy o ddrygau yn y byd oni buasai crefydd, ac os oes unrhyw beth dan y nefoedd yn wir, y mae yn ffaith mai tuedd uniongyrchol gwir grefydd yw creu heddwch, cariad ac ewyllys da rhwng brodyr. Dywed Iago, mai "Crefydd bur a dihalogedig gerbron Duw a'r Tad, yw hyn; ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd," hyny yw, yn rhydd oddiwrth bob drygioni yn y byd. A oes tuedd er drwg mewn dwyn i ymarferiad y fath grefydd? Gwir yw, fod dynion wedi gwneyd cam â chrefydd, fel y maent â phob peth arall braidd, ond nid oes yr un dyn mor afresymol â gwrthod unrhyw beth da oblegyd fod rhyw ddyn arall wedi gwneyd cam âg ef; os felly, yna rhaid ymwrthod â phob peth, hyd y nod yr awyr a anadlwn, y dwfr a yfwn, a'r tân sydd yn ein cynhesu, oblegyd beth sydd yn bod nad yw wedi cael ei gamddefnyddio yn rhyw ffordd? Pe buasai gwir grefydd yn ffynu yn nghalonau y sawl sydd yn dwyn yn mlaen yr esgus uchod, nid oes dim yn fwy sicr nag y buasent yn teimlo ac yn gwybod nad oes dim wedi bod, ac na all dim fod o fwy o fendith i'r byd nâ chrefydd bur a dihalogedig—y grefydd hono a orlenwai fynwes yr Arglwydd Iesu Grist—gwir gariad at Dduw a dyn. Pe caffai hon ei dylanwad nefol ar galonau meibion a merched dynion, diflanai anngharíad a phob gweithred a dymuniad drwg yn y man, a chyd-deithient gydâ'u gilydd yn llawen ar eu taith filwriaethus trwy y byd i'r nefoedd.

"Ond os nad yw crefydd yn atebol am y drygau sydd wedi cydfodoli gyda hi, etto ni allwn weled ei bod yn gwneyd llawer o ddaioni; ac felly ni allwn deimlo llawer o ddyddordeb ynddi hi nac yn ei sefydliadau." Dyma'r esgus olaf ydym yn bwrpasu gymmeryd dan ein hystyriaeth yn bresenol, ac efallai ei fod yn gofyn cymmaint, os nid mwy, o sylw nâ'r esgusodion ereill ydym wedi sylwi arnynt. Llawer iawn o bersonau sydd yn dwyn hwn yn mlaen y dyddiau presenol, yn y rhai mae cyfnewidiadau pwysig yn cymmeryd lle yn meddyliau dynion parth crefydd a'i sefydliadau; ond a oes ganddynt reswm da dros wneuthur felly? Onid oes llawer o bethau ydynt yn cael eu hystyried yn werthfawr genym ni na allwn weled, a gosod allan mewn geiriau, mor eglur a diamwys ag y dymunem, eu gwerth a'u defnyddioldeb? Ond ni fanylwn ar hyn. Yn awr, gofynwn i'r bobl yma beth sydd yn gwneyd daioni? Beth sydd werthfawr? "Wel y mae pob peth sydd yn tueddu i ddwyn oddiamgylch rinwedd, cysur a dedwyddwch dynol, yn dda." O'r goreu, mor belled a hynyna yr ydym yn cyduno; da genym gael ar ddeall eich bod yn dewis safon mor uchel, a'ch bod yn caniatau peth sydd mor rhesymol a chredadwy. Y mae pob peth sydd dda gan hyny yn tueddu i achosi rhinwedd, cysur a dedwyddwch dyn yn unigol, yn gystal â'r gymdeithas ddynol yn gyffredinol. Ar bwys hynyna, gadewch i mi ofyn gofyniad arall. A ellwch chwi feddwl yn sobr nad yw crefydd, neu wir barch a chariad at Dduw a dyn, a bywyd dyfodol ddim yn tueddu i ddwyn oddiamgylch rinwedd a dedwyddwch? A ydych chwi yn meddwl fod y meithriniad o bob rhinwedd mae Iesu Grist yn gosod pwys mawr

arno yn elynol i gysur dyn? A ydych chwi yn meddwl nad yw cariad Cristionogol yn tueddu dim i wneyd dyn yn fwy cysurus, hapus a dedwydd yn y byd hwn, nâ'r dyn sydd yn casau Duw a dyn, ac yn byw bywyd isel a phechadurus—bywyd sydd megys yn gwenwyno yr awyrgylch foesol, ac yn dylanwadu er gwaeth ar bawb o'i amgylch? Onid ydych yn ystyried fod duwioldeb ymarferol yn beth gwir bwysig a gwerthfawr? "Amheuwn hyny." Ond ar ba gyfrif: beth yw eich rhesymau dros amheu? "Wel, adwaenwn bobl nad ydynt yn gwneyd un broffes o grefydd, ac ymddangosent yn rhinweddol a dedwydd ddigon." Ond paham ydych yn cymmeryd yn *ganiatâol* lle nad oes proffes nad oes yno ddim crefydd hefyd o gwbl? A ydych chwi gyda hwynt bob amser? A ellwch chwi amgyffred eu dirgel feddyliau hwynt? Ond ni fanylwn ar hyn yn bresenol, ac os gwir yw nad yw rhai dynion yn talu sylw i grefydd yn awr, a yw yn canlyn nad ydynt wedi meddwl dim am dani erioed? Ac wrth gwrs, nid yw yn canlyn nad yw eu rhinwedd a'u dedwyddwch yn ddyledus am ddim i'w duwioldeb. Oni chafodd y bobl yma eu dwyn i fyny yn grefyddol? Yn awr, nid yw effeithiau addysg foreu yn cael eu colli yn fuan. Nid gwaith rhwydd yw dileu o'r meddwl argraffiadau boreuol am Dduw, am ragluniaeth, ac am fyd arall. Y maent yn aros yn yr enaid am amser maith wedi i ddyn omedd rhoddi sylw cydwybodol i grefydd, ac i'r argraffiadau hyn y mae llawer sydd rinweddol a dedwydd yn y rhai ydynt yn cyfeirio atynt i gael ei briodoli. Hefyd, dylid cofio fod y dynion moesol a dedwydd y cyfeiriwch atynt i brofi annefnyddioldeb crefydd, yn byw yn mhlith pobl grefyddol, yn anadlu awyr grefyddol, ac o ganlyniad, ni all y cyfryw lai nag effeithio er daioni arnynt. Er nad ydych yn cymmeryd trafferth a gofal neillduol i feithrin y syniadau yma eu hunain, etto i gyd, y mae crefydd, syniad a barn y cyhoedd, yn effeithio mewn modd anuniongyrchol ar eu cymmeriadau a'u harferion. Nid oes un ffaith yn fwy sicr nâ hyn, sef fod dyn geirwir, ac o rodiad da a duwiol yn dylanwadu er daioni ar bawb o fewn cylch ei ddylanwad; ar bawb ydynt lygad-dystion o'i rodiad dichlynaidd yn y byd.

"Ah! gwyddwn am ddyn oedd nid yn unig ddim yn proffesu crefydd, ond hefyd yn gosod ei hun allan fel ei gwrthwynebydd cyndyn, ac etto i gyd yn ddedwydd."

A ydych chwi yn cyfeirio fy meddwl at ddyn nad oedd yn credu yn modolaeth Duw, ac yn y ffaith o fywyd dyfodol: un nad oedd yn gweled yn y byd sydd wedi ei greu mor ddoeth, ddim olion o ddoethineb ddwyfol, nac yn holl achosion llawenydd o'i amgylch ddim olion o ewyllys da y Creawdwr—un nad oedd ganddo yr un gred mewn dim tudraw i'r byd presenol, ac a ddychymmygai nad yw rhinwedd a daioni, dedwyddwch ac annedwyddwch ddim yn cario eu dylanwad gyda hwynt yn mhellach nâ bwlch angau? Ai y fath gymmeriad ydych yn ddwyn yn mlaen er profi nad yw rhinwedd a dedwyddwch yn ymddibynu dim ar grefydd? Ond a ydych yn sicr ei fod yn ei iawn bwyll? A ellwch chwi fy sicrhau parth cyflwr dyogel ei feddwl? Wedi diorseddu rheswm unwaith, gwaith anhawdd gwybod i ba eithafion yr ar-

weinia dychymmyg dyn ef. Nid oes dim yn rhy afresymol i'r dyn afresymol i'w gredu ar un llaw, a'i annghredu ar y llaw arall. A ydych chwi yn gwbl argyhoeddedig ei fod yn ei iawn bwyll? Yna yr wyf yn gofyn i chwi a oedd efe yn rhinweddol ac yn ddedwydd? Dychymmygwn am foment fy mod i yn caniatau hyny—i ba raddau? A oedd yn gymmaint felly, a oedd mor rhinweddol ac yn mwynhau cymmaint o ddedwyddwch ag oedd yn bossibl iddo ei fwynhau, pe na buasai wedi troi ei gefn ar Dduw ac anfarwoldeb? Y mae hyny yn anmhossibl yn ol natur pethau, os oedd feddianol ar hanfodion dynoliaeth. Gan nad pa mor rhinweddol a dedwydd oedd, buasai crefydd bur a dihalog yn sicr, ie, yn rhwym o'i wneuthur yn llawer mwy felly. Pa gymmaint bynag o rinwedd a dedwyddwch oedd feddianol arno, nid oedd yn cael ei achosi gan, neu yn effaith ei anffyddiaeth, ond er gwaethaf ei anffyddiaeth. Ond a allasai un dyn o fil, a fynwesai ar ei egwyddorion ef, ochelyd drygioni a thrueni? Paham yr oedd yn llwyddo mor dda heb grefydd? Onid oedd ei lwyddiant i gael ei briodoli i ryw amgylchiadau allanol yn ei fywyd, neu ei ffurfiad mewnol, neu i'r ddau beth? Onid o herwydd fod ei sefyllfa ef mewn bywyd y fath, oedd yn ei gadw i raddau helaeth iawn, oddiwrth demtasiynau a thrallodion y byd? Onid o oblegid ei fod wedi ei gyfansoddi mewn meddwl a chalon, yn wahanol iawn i'r mwyafrif annghymharol fawr o'i gyd-ddynion? Paham gan hyny y dygwch chwi ef yn mlaen i brofi annefnyddioldeb crefydd? Nid yw hyn ond ymresymu oddiwrth yr eithriad yn lle y rheol gyffredin. Yr un peth fyddai dywedyd, gan fod Captain Webb wedi nofio heb orphwys dim, o Loegr i Ffrainc, gall pawb wneuthur hyny. A all dynolryw yn gyffredinol wneyd heb grefydd? Dyna beth yw cwestiwn pwysig; ac nid yw o un pwrpas da, gyda golwg i'w benderfynu, i ddwyn rhyw un person, a hwnw mewn amgylchiadau neilldual, neu wedi ei gyfansoddi gorff a meddwl yn wahanol i'r mwyafrif annghymharol fawr o'r teulu dynol sydd wedi gallu, dros amser, bod yn weddol rinweddol a dedwydd heb ei chymhorth. Ond gan fod fy mysedd a'm pen hefyd, megys yn dweyd wrthyf yn uchel ac awdurdodol, am osod fy ysgrif-bin o'r neilldu yn bresenol, cawn siarad gair neu ddau yn mhellach ar y pwnc dan sylw mewn rhifyn dyfodol o'r YMOFYNYDD, ac yna enciliwn o'r maes. S. B.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

CYNNALIWYD y cyfarfod uchod yn yr Hen-dy-Cwrdd, Nottais, gerllaw Porthcawl, dydd Mercher a dydd Iau, y 29ain a'r 30ain o Fedi. Yr oedd o Weinidogion yn bresenol yr Hybarch dad Titus Lloyd, Gweinidog y lle; y Parchn. J. B. Lloyd, Knutsford; E. W. Lloyd, Cwmbach; R. J. Jones, M.A., Aberdar; J. Evans, Gellionen; J. J. George, Aberdar; J. Davies, Alltyplacca; Jenkin Williams, Blaengwrach;

W. James, B.A., Aberdar; Mri. J. Hathren Davies, Coleg Caerfyrddin, a T. Lloyd Jones, Manchester New College, Llundain. Yr oedd yn llawenydd nid bychan genym weled yn bresenol amryw Weinidogion o'r gwahanol enwadau, yr hyn a ddengys fod rhyddid crefyddol yn ymledaenu yn mhlith Cristionogion o bob enwad, ac hefyd fod parch cyffredinol gan bawb yn yr ardal i Weinidog y Nottais. Yr wyf yn meddwl na fuasai allan o le pe buasid wedi gofyn i rai o honynt gymmeryd rhan yn y gwasanaeth. Prydnawn dydd Mercher, dechreuwyd y cyfarfod trwy ddarllen a gweddio gan Mr. J. Hathren Davies, a phregethwyd i dyrfa luosog gan Mr. T. Lloyd Jones, a'r Parch. J. Evans, o Gellionen. Boreu dydd Iau, dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. R. J. Jones, M.A., a phregethwyd yn Saesneg gan y Parch. J. J. George, a dilynwyd ef yn Gymraeg gan y *Pregethwr appwyntiedig*, y Parch. J. Davies. Da genym allu dweyd fod Mr. Davies, yn ei hwyliau goreu. Clywsom ef lawer gwaith o'r blaen yn pregethu; ond nid erioed cystal â'r tro hwn. Cymmerodd ei destyn oddiwrth 2 Tim. iii. 16, a thrafododd ei bwnc, sef *Ysprydoliaeth y Beibl*, yn feistrolaidd dros ben. Ceisiaf roddi yma fraslun anmherffaith o'r hyn a ddywedodd. Dysgrifiodd yn effeithiol yr aflonyddwch sydd yn bodoli yn rhengoedd Cristnogaeth yn ein dyddiau ni o barthed i bynciau crefyddol. Perygl yr oes hon ydyw rhedeg yn rhy gyflym a myned dros y dibyn. Oes y tynu lawr ydyw, heb adeiladu yn well, a gadael dynion heb anneddau i ymgysgodi. Amcan ei sylwadau oedd cael allan *estimate*—cael allan wir werth yr hen lyfr cyssegredig. Y mae tair ffordd o edrych ar y Beibl. Yn gyntaf, fod yr oll o hono o ddechreu Genesis i ddiwedd y Datguddiad wedi ei roddi gan Ysbryd Duw. Pe byddai yr olwg hon yn iawn, dysgwyliem fod unrhywiaeth ysbryd yn rhedeg drwyddo oll, oblegid mae Ysbryd Duw yr un o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb, heb gysgod o droedigaeth. Ond nid felly mae'r Beibl. Mae gwahaniaeth mawr rhwng Paul, Pedr, a Ioan, rhwng y Pregethwr ac Isaiah; gwahaniaeth dirfawr rhwng Eliseus yn melldithio plant bychain yn enw yr Arglwydd, a'r Iesu yn gweddio dros ei elynion a'i gosodasant i farwolaeth. Hefyd, pe yn ysbrydoledig ac anffaeledig, rhaid fuasai cael cyfieithwyr ysbrydoledig ac anffaeledig; a gwaith ofer a dibwrpas y mae prif ysgolheigion ein gwlad yn ymdrin ag ef yn awr. Golwg arall arno, nad yw ei iaith wedi ei chyffwrdd gan yr Ysbryd santaidd, ond ei fod yn y pynciau yr ymdrin á hwy yn berffaith—fod hanes ffurfiad y ddaear, yr anifeiliaid, a dyn yn berffaith ar ei dudalenau. A all hyn ddal ei dir yn ngwyneb darganfyddiadau diweddaraf gwyddor; a ydyw'r Beibl yn gysson ag ef ei hun? Goleu cyn bod haul, ffynonell pob goleuni! Os yw hanes y Beibl yn wir, dim ond rhyw 6000 o flynyddoedd sydd er y cread. Y mae Daeareg yn ei dadleniad o ddirgeledigaethau y ddaear yn profi yn groes i hyn: fod oesoedd annghyfrifadwy wedi myned i ffurfio'r ddaear i'r hyn ydyw yn bresenol. Ond nid llyfr i ddysgu gwyddor yw y Beibl, ac nid yw ei ysgrifenwyr yn gwneuthur *claim* i hyn. Gosodant hwy bethau i lawr hyd eithaf eu gwybodaeth; ac yn nysgleirdeb goleuni gwell, yr ydym ni yn awr yn gweled eu bod hwy yn anwybodus o drefn ffurfiad y ddaear, a seryddiaeth, &c. Ni ddylai hyn beri i ni roddi llai o barch i'r

hyn ydym yn deimlo sydd wir ynddo—i'r gwersi ysbrydol y mae yn gynnwys.

Yn ddiweddaf, yr olwg a ddylid gymmeryd arno. Pa le mae'r Beibl yn sefyll mewn cymhariaeth i lyfrau ereill? Saif yn mhlith llyfrau da ereill yn ben arnynt oll mewn gwersi ac esiamplau ysbrydol. Nid oes dim un rhcol trwy yr hon y gellir gwahanu y dwyfol oddiwrth yr hyn nid yw ddwyfol. Y mae ysbrydoliaeth y Beibl yn cynnyddu gyda'r oesau. Mae'r Testament Newydd yn tra ragori ar yr Hen. Darllenwch hanes y rhyfeloedd yn y Breninoedd, a phregeth Crist ar y mynydd, a chwi a welwch yn mha un y mae fwyaf o ysbrydoliaeth. Llyfr ydyw yn gynnwysedig o wendid dynol a nerth dwyfol; yn dangos dyhead dyn am Ysbryd Duw; yn dangos ymdrechiadau dyn am berffeithrwydd. Er ei holl ffaeleddau, y llyfr goreu ydyw. Nid llyfr i gaethiwo y meddwl dynol; y Beibl a wnaethpwyd er mwyn dyn, ac nid dyn er mwyn y Beibl.

Ar ol y bregeth, etholwyd, yn ol y dull arferol, weinidog y lle i gymmeryd y gadair, er mwyn rhoddi cyfleusdra i unrhyw un yn bresenol i ofyn rhyw gwestiwn, neu eglurhad ar y bregeth. Gan fod pawb yn ymddangos eu bod wedi eu llwyr foddloni, aethpwyd yn mlaen at y pwnc, sef "*Beth sydd i'w ddeall wrth ffydd yn yr Ysgrythyrau?*" Llefarwyd arno i bwrpas gan y Parchn. E. W. Lloyd, ac R. J. Jones, M.A. Ymdriniodd y ddau â gwahanol agweddau y pwnc, fel ag y cawsom olwg weddol gynnwysfawr ar y maes helaeth mae ffydd yn gymmeryd fyny.

Yn y prydnawn, am hanner awr wedi tri, cynnaliwyd Cynnadledd, er mwyn ystyried y moddion goreu i ledaenu egwyddorion Undodaidd. Siaradodd y Parchn. J. B. Lloyd a J. J. George yn Saesneg, ac R. J. Jones, M.A., a J. Davies yn Gymraeg. Siaradasant oll yn dda, a dangoswyd llawer o frwdfrydedd yn y cyfarfod. Dywedai Mr. Jones ei fod yn siarad fel gwr lleyg wrth wyr lleyg. Hyspysodd ei wrandawyr fod ganddo gawell o saethau, ac ni arbedodd y cyntaf, ac ni chwilyddiodd y diweddaf.

Yn y cyfarfod yma cawsom ar ddeall fod y Parch. J. Davies, Alltyplacca, wedi rhoddi ei gydsyniad i gais y *British and Foreign Unitarian Association* i ymweled á threfydd mwyaf poblog siroedd Caerfyrddin a Morganwg i draddodi darlithiau ar bynciau crefyddol. Dyma gyfle i gyfeillion ydynt yn byw mewn trefydd lle nad oes capel Undodaidd i'w gael i ddangos eu sel dros yr achos, i ddodi eu penau yn nghyd, i hurio *halls*, a galw cyfeillion o wahanol enwadau i glywed egwyddorion Undodaidd yn cael eu traddodi. Os oes neb yn debyg o lwyddo fel cenadwr Undodaidd, yr ydym yn teimlo yn sicr mai Mr. Davies yw'r dyn. Y mae ei lais a'i allu i draddodi, yn nghyd á'i fod á'i galon yn ei waith, yn ei wneuthur yn hynod gymhwys.

Yn yr hwyr dydd Iau, dechreuwyd gan y Parch. J. Davies, a phregethwyd yn Saesneg gan y Parch. J. B. Lloyd, oddiwrth Ioan vi. 68. Gan fod yr ysgrif bresenol wedi myned eisoes yn faith, bwriadwn yn y rhifyn nesaf o'r YMOFYNYDD, trwy ganiatad y Gol., roddi braslun o'r bregeth hon. Ar ei ol pregethodd y Parch. W. James, B.A., oddiwrth

Job xxxvii. 14, yn nghyd á Ephes. vi. 13. Wrth derfynu, dymunem adgofio'r cyfeillion yn y Nottais am awgrymiad y Parch. R. J. Jones, fod arnynt eisiau capel newydd. Y fath galondid fyddai hyn i'w hen weinidog parchus i weled fod ei lafur yn cael ei goroni á llwyddiant cyn yr elo ac na byddo mwy.

Manchester New College, Llundain,
Hydref 15, 1875.

AB GRUFFYDD.

UFFERN.*

AT OLYGYDD "YR YMOFYNYDD."

SYR,—A fyddai yn ormod o drais ar eich haelionusrwydd i mi i ofyn am ddrws agored i'r erthygl ganlynol, gan fod drws y "Tyst a'r Dydd" wedi ei gau. Gwn fod rhai pethau yn nghynnwysiad fy ysgrif yn groes i farn llawer o'ch darllenwyr, etto, credwyf fod yma rai pethau a fydd yn foddion i dynu meddyliau rhai allan:—B. BENNETT, Abertawy.

Llythyr at Olygyddion y "Tyst a'r Dydd" mewn ffordd o atebiad ac amddiffyniad o berthynas i sylwadau rhyw "Ohebydd," yn y papyr hwnw, ar y Ddarlith a draddodwyd gan yr Awdwr yn Abertawe, ar "Uffern."

FONEDDIGION,—Trwy garedigrwydd cyfaill, tynwyd fy sylw at nodyn byr yn eich papyr am Gwener diweddaf, yn cynnwys sylwad neu ddau ar fy Narlith yn Abertawe, yn nghyd â chais am eglurhad ar Math. xxv. 40.

Trwy eich caniatad, dymunaf wneyd ychydig o sylwadau mewn ffordd o atebiad i'ch Gohebydd, ac amddiffyniad i'r hyn a gredwyf sydd wirioned. Ymdrechaf fod mor fyr ac mor gryno ag y mae pwysigrwydd y pwnc yn galw am dano. Mae eich Gohebydd yn gwaeddi buddugoliaeth yn rhy gynnar, trwy ddweyd i'r Darlith fyned yn "fethiant." "Methu," y mae'n debyg, a phrofi nad yw poenedigaeth yr annuwiol yn annherfynol. Gresyn na buasai Mr. Gohebydd yn y lle cyntaf yn gwneyd ychydig o sylwadau ar y Ddarlith, trwy geisio dymchwelyd rhai o'r sylfaeni, a'i nithio yn llwyr, i gael gwaeled a oedd ychydig o wenith ynddi, neu nad oedd; dangos i'r darlleny d beth oedd yn anysgrythyrol ac yn gyfeiliornus; gwrthbrofi y ddarlith cyn gwaeddi "Methu," a chofio nad yw haeru rhywbeth yn profi dim byd. Dyfynais luaws o adnodau o'r Hen Destament a'r Newydd, yn profi mai y bedd sydd i'w olygu wrthynt, ac nid uffern yn ol y farn gyffredin. Profais fod y Beibl yn ein dysgu nad oes na gwobr na chosp cyn yr Adgyfodiad, ac mai *dgstryw* neu *golledigaeth dragywyddol*, ac nid *poenedigaeth annherfynol* fydd tynged yr annuwiol; ac ymdrechaf yn awr, drwy yr ohebiaeth hon, ddwyn rhai o'm rhesymau a'r adnodau a ddyfynais ger bron eich darllenwyr. Dywedais mai *dinystr, colledigaeth*, neu *ddiddymiad* o fodolaeth yn gyfangwbl, *ac nid poenedigaeth annherfynol* fydd diwedd eu cospedigaeth. Marwolaeth neu fywyd, colli neu gadw, yw iaith y Beibl. "Cyflog pechod yw marwolaeth, dawn Duw yw bywyd tragywyddol." Dywedais nad oes bywyd tragywyddol tu allan i Iesu Grist. "Yr hwn sydd yn

---

* Gwrthodwyd cyhoeddi y llythyr hwn gan Olygyddion y "Tyst a'r Dydd," am y rheswm a ganlyn. Barned y darllenydd eu gonestrwydd a gwir ryddid eu papyr:

"B.B.—Nid ydym yn credu fod rhyddid y wasg yn ddigon o ddadl dros i ni osod ein colofnau at wasanaeth neb i draethu syniadau cyfeiliornus ac anysgrythyrol, yn ol barn Cristionogion uniawngred, a syniadau ydynt o duedd niweidiol, yn ol fel y credwn ni."—*Y Tyst a'r Dydd.*

credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd; yr hwn nid yw yn credu yn y Mab, ni wel fywyd, eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef." Y gofyniad pwysig yw, Pa fodd y mae *digofaint* Duw i gael ei effeithio? Ai yn eu *poenedigaeth anuherfynol*, neu ynte yn eu *dystryw*? Yn Esay x. 25. cawn y geiriau yma, "Canys etto ychydig bach ac fe a dderfydd y llid, a'm *digofaint* yn *eu dinystr* hwy."

A ganlyn sydd darluniad perffaith o farn yr uniawn-gred, fel eu gelwir, am uffern, a dywedaf nad oes cysgod o sail iddo o fewn cloriau y Beibl.—

"Gwrandewch ar ysgrechfeydd ofnadwy y miloedd ar filoedd o greaduriaid poenedig yn wallgof gan dân uffern. O! yr ochenaidiau a'r gruddfanau arswydus o ofnau, poenau, anobeithion y miloedd miliynau!! Yno y clywir hwynt yn rhuo fel llewod, yn chwythu fel seirff, yn udain fel cwn, ac yn chwyrnu fel eirth. Yno y clywir y rhincian danneddau, a chablu Duw ofnadwy y cythreuliaid. Uwchlaw pob peth chwi a glywch ruadau taranau digofaint Duw, y rhai a ysgydwant uffern i'w sylfaeni. Ond y mae swn arall; y mae yn uffern swn megys dyfroedd lawer; y mae fel pe bai holl afonydd a moroedd y byd yn dylifo eu hunain gyda thrwst ofnadwy ar lawr uffern. Ai swn dyfroedd yw mewn gwirionedd? Ie. A ydyw afonydd a moroedd y ddaear yn arllwys eu hunain i uffern? Nac ydyw. Beth yw, ynte? Swn miloedd o ddagrau yn dylifo oddiwrth filiynau dirifedi o lygaid, yno yn llefain am eu bod mewn tywyllwch. Maent yn llefain oblegyd fod y mwg brwmstanaidd yn poeni eu llygaid. Maent yn llefain am fod y tân llym yn eu llosgi. Maent yn llefain am eu bod wedi colli'r nefoedd hyfrydlawn! Blentyn anwyl, mae yn well llefain *un* deigryn o edifeirwch yn awr, *nâ* llefain miloedd o filiynau o ddagrau yn uffern!!"

"Y mae Duw ei hun (ebe Benson,) yn bresenol yn uffern, i fod yn dyst o boenedigaeth y *rebels* hyny a ddarfu ryfela yn erbyn ei lywodraeth, fel byddo y gosp yn gyfatebol i cuogrwydd eu trueni; mae ei ddigofaint tanllyd yn ennynu; a bydd yn poethi fflam eu poenedigaeth â'i bresenoldeb anferdroi, a'i weithrediadau yn cynnal eu bodolaeth *am dragywyddoldeb*."

Dywed rhai mai cydwybod euog o fewn yr annuwiol tu draw i angau a'r bedd yw uffern. Dywedwn, yn wyneb hyn yma, nas gall cydwybod fodoli heb feddwl, na meddwl fodoli heb sylfaen i'w ddal, neu heb y corff. Wyr y Beibl ddim am "ysprydion annghorfforedig." Er prawf o hyn, darllenwn a ganlyn:—"O herwydd y rhai hyn a wyddant y byddant farw; *ond nid oes gwybodaeth gan y meirw*; eu cariad hefyd, a'u cas, a'u cenfigen a ddarfu yn awr." (*Preg.* ix 5, 6.) "Canys nid oes na *gwaith, na dychymyg, na gwybodaeth, na doethineb yn y bedd*, lle yr wyt ti yn myned." "Y mae *corff anianol*, ac y mae *corff ysprydol*." (1 Cor. xv. 40, 44.)

Rhoddwn yn awr esponiad o'r gair *sheol* a *hades* yn yr Hen Destament a'r Newydd. Y mae *hades* yn dygwydd 11 o weithiau yn y Testament Newydd, a chyfieithir ef yn *uffern (hell)* 10 o weithiau. Gair yn cael ei ddefnyddio gan y Deg-ac-Thriugain (*Septuagint*) yw fel cyfieithiad o'r gair Hebraeg *sheol*, yn dynodi trigfa, neu fyd y meirw, ac hefyd yn golygu yr hyn sydd mewn tywyllwch, yn guddiedig ac yn anweledig. Mewn trefn i gael allan feddwl y gair *sheol*, y mae yn rhaid i ni droi i'r adnodau lle y defnyddir ef. Mae y gair yn cael ei gyfieithu gan y *Septuagint* yn *hades* 60 allan o 63 o weithiau. Y mae cyfieithu y gair *hades* yn uffern, fel ag y gwneir 10 o weithiau allan o 11 yn y Testament Newydd, yn annuriodol, ac yn gam o'r mwyaf, os nad yw y meddwl Saxonaidd yn cael ei ddangos drwyddo, sef cuddio, neu osod o'r golwg, &c.

Ar y cyntaf nid oedd meddwl y gair uffern (*hell*, Saxon, *helen*,) yn golygu ond yr

hyn oedd guddiedig, neu dan y tir, a hyny yn gysson â'r gair Groeg *hades*, a'r Hebraeg *sheol*, yr hwn sydd gyfystyr iddo. Mae y darluniad a roddir o hono gan y rhai a alwant eu hunain yn dduwinyddion, y dyddiau hyn, yn mhell iawn o wir feddwl ac ystyr y gair yn y Beibl. Nid yw yn un man yn golygu "y byd ysprydol," byd y cythreuliaid," "byd uffernol," "byd yr ysprydion colledig," a "gwlad y poenau a'r gwaeau tragywyddol," &c.

Dywed y Parch. Mr. Buck, mai uffern yw lle o gospedigaeth tragywyddol ar ol marwolaeth. Swindon a ddywed, ac a geisiodd brofi fod uffern yn yr haul. Ac yn ol Mr. Whiston, y mae pob un o'r *comets* yn cynnwys uffern, wedi eu pennodi yn gylchynol i gludo y colledigion tua chyffiniau yr haul, i'w rhostio yn ei wres angherddol, ac wedi hyny yn eu dychwelyd yn ol i gyffiniau Sadwrn, i ddyoddef yr oerfel llymaf, felly yn ol ac yn mlaen, o wres ac oerfel annyoddefol yr haul a Sadwrn am dragywyddoldeb! Felly, ni a welwn hefyd fod y duwinyddion goreu yn methu a chyduno pa un ai lawr ai fyny y mae uffern. Barna Dr. Watts, mai i lawr rywle yn nghrombil annghysbell y ddaear y mae, dywed,—

"Devils plunge them down to hell."

Nid oes gyda ni ond un man priodol i fyned i ymofyn am y lle, ac am natur y gosp, sef i'r Beibl. Gwel Ezeciel xxxi. 14—17, ac hefyd xxxii. 26, 27. "Y rhai drygionus (ebe y Salmydd,) a ymchwelant i uffern (*sheol*), a'r holl genhedloedd a annghofiant Dduw," h.y., y bedd neu ddystryw fydd eu tynged. "Canys ni adewir fy enaid yn uffern," (*sheol*) neu y bedd. "Ond y rhai a geisiant fy enaid i ddystryw a ânt i iselderau y ddaear," (i ddystryw tragywyddol). "A Jonah a weddiodd ar yr Arglwydd o fol y pysgodyn: o fol uffern y gwaeddais, a chlywaist fy llef." Jonah ii. 1, 2. "A thydi Capernaum, yr hon a ddyrchafwyd hyd y nef, a dynnir i lawr hyd yn uffern," (annghyfanedd-dra, bedd, neu ddiddymdra). "Ac yr ydwyf finnau yn dywedyd i ti, mai ti yw Pedr; ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, a phyrth uffern (*hades*, neu y bedd) nis gorchfygant hi." "O uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth," (neu O *hades*, neu fedd). "Ac y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth," (neu angau a'r bedd, *hades*). "A marwolaeth ac uffern a fwriwyd i'r llyn o dân, yr hon yw yr ail-farwolaeth," h.y., terfyn ar angau a'r bedd. "Angau a lyncwyd mewn buddugoliaeth."

Er y gellir nodi llawer o adnodau yn ychwanegol lle mai y gair *sheol* yn yr Hen Destament, a'r gair *hades* yn y Newydd, yn golygu dim mwy na llai nâ'r bedd, neu ymguddfan, neu drigfa y meirw, lle y mae y drwg a'r da yn cydorphwys mewn cyflwr o anymwybodolrwydd; etto, dywedaf nad ydynt mewn un man yn y Beibl yn golygu lle o *boenedigaeth annherfynol* i'r annuwiol. Eglur yw i'r cyfeithwyr amcanu, a hyny yn wirfoddol yn ddiamheu, i dywyllu gwir ystyr y geiriau er mwyn dal i fyny y meddwl traddodiadol am uffern. Pe bai *hades* a *sheol* wedi eu cyfieithu yn briodol yn fedd, pwll, trigfa, neu gartrefle y meirw, ni fuasai y drychfeddwl ffol o *boenedigaeth annherfynol* yn gyssylltiedig â hwy o gwbl. Mae y drychfeddwl yn *slander* ar gymmeriad y Bôd Mawr.

Dywed Dr. Campbell, yn ei esponiad ar yr Efengylau:—"Gyda golwg ar y gair *hades*, ni ddylai byth gael ei gyfeithu yn uffern, o leiaf yn yr ystyr y cymmerir y gair yn gyffredin gan Gristionogion. Yn yr Hen Destament, y gair cyfatebol yw *sheol*, yr hwn a olyga sefyllfa y meirw yn gyffredinol, heb wahaniaeth rhwng drwg a da."

(I'w barhau.)

Marwgofion.

Gorphenaf 6, 1875, Thomas Jones, yr hwn a anwyd yn y Dinas Rock, Cwmnedd, yn y flwyddyn 1806, a fu byw wedi hyny yn Aberaman, Aberdar. Yr oedd yn ddyn call, diwyd, a gonest; yn Undodwr trwyadl, ac yn dderbyniwr yr Ymofynydd am flynyddoedd lawer. Claddwyd ef yn yr un bedd â'i wraig yn Nghladdfa Aberdar, lle daeth tyrfa luosog i hebrwng ei weddillion. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. W. James, B.A.—*D. J.*

Medi 1, yn 52 oed, Jacob Davies, Hendai, Pencareg. Gadawodd ar ei ol wraig a dau blentyn i alaru eu colled. Ar ddydd ei gladdedigaeth daeth tyrfa luosog yn nghyd i hebrwng ei weddillion i fynwent Caeronen. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. R. C. Jones, oddiwrth Math. xxvi.41. Yr oedd iddo air da gan ei gymmydogion. Cafodd cynnulleidfa Llanbedr, golled fawr yn ei farwolaeth.

Medi 20, yn 14 oed, Catherine, anwyl ferch Thomas ac Anne Matthews, Porthcawl, a chladdwyd hi yr Iau canlynol yn mynwent Eglwys Drefnewydd. Aeth yr un fechan i dalu ymweliad â Mr. Havard, Maesteg, ar yr 16eg, a chymmerwyd hi yn glaf yno y diwrnod canlynol, a'r diwrnod canlynol i hyny dygwyd hi adref, a chyn pen wythnos gosodwyd hi yn y dystaw fedd. Hebryngwyd ei gweddillion yno gan dorf luosog, cynnwysedig o berthynasau a chyfeillion ereill, y rhai sydd yn cydymdeimlo â'i rhieni yn ddwys, yn ngwyneb colli o honynt eu plentyn mor sydyn ac annysgwyliadwy. Gan nad oedd hi wedi cael ei thaenellu gan Offeiriad y plwyf, na neb arall, gosodwyd y pridd i'r pridd heb wasanaeth yr Offeiriad; ond cyn troi o'r gwyddfodolion oddiwrth ei bedd, canwyd y geiriau canlynol gan Gôr Hen-dŷ-Cwrdd, y Nottais, yn cael ei gynnorthwyo gan ereill.—

"Tranc i'r bedd, ac angau i angau," &c.

R. P.

Barddoniaeth.

YR HEN WEDDW DLAWD.

Bydd dyner wrth y Weddw dlawd,
Sy'n crymu tua'r bedd;
Bron cyrhaedd at ei safn ddu, oer—
Gad iddi fyn'd mewn hedd.

Dan rew-wynt oer y ganaf llwm,
A gwendid fwy na mwy;
A'r oll a geir o fewn ei chell,
Yw crystyn sych y plwy'.

Rhed drwy ei meddwl lawer tro,
Ei helynt yn y byd;
Pan oedd ei chydmar bywyd hoff,
A'i phlant yn fyw i gyd.

Mae'n cofio rhoddi'r fodrwy ar
Ei bys mewn rhwysg a pharch;
Mae'n cofio dodi'r llaw a'i rho'es
Yn dawel yn yr arch.

Mae'n cofio süo cryd ei mab—
Ei holaf fab—a gaed
Yn syrthio'n swn y magnel rhwth,
Mewn ing ar faes y gwaed.

Mae'r gaua' 'n dod a hithau'n llwm,
Rho gardod iddi hi,
Mae Duw'n ei gadael yn y byd,
Er mwyn dy brofi di.

J. H. A.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

Miss J., Cellan ; E. G., Aberdar ; J. E., Llanybyther ; J. R., Cardiff ; R. Ll., Llandyssil ; D. M., Treorkey ; B. B., Swansea ; J. J., Quakers' Yard ; J. W., Blaengwrach ; T. Ll., Nottais ; E. J., Carmarthen ; E. T., Bwlch ; W. L., Pontypridd ; D. T., Liverpool ; W. H., Cefn ; T. D., Llwynrheol ; D. E., Rhymney ; J. E., Nantgwyn ; J. D., Llandebie ; J. E., Newcastle ; T. D., Dolbwba ; Mrs. J., Cwmmawr ; T. J., Maesygarn ; R. P., Blaentrafle.

Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,

AIL ARGRAFFIAD O

TELYN DEWI,

SEF GWAITH PRYDYDDAWL Y PARCH. DAVID DAVIS.

GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

Fel mae yn hyspys i lawer fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diamheu y bydd ymddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyniol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd, a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

CRISTIONOGAETH UNDODAIDD,

GAN SAMUEL SHARPE.

4 tdd. Pris 10s. y fil, 1s. 3c. y cant, 2 geiniog y dwsin.

CYFFES FFYDD UNDODWR,

GAN JOHN PAGE HOPPS.

24 tdd. Pris naw ceiniog y dwsin, neu 3s. a 6c. y cant.

Dyma gyfleusdra i gyfeillion wneuthur rhywbeth tuag at daenu egwyddorion Undodaidd. Anfonir hwy yn rhad trwy'r post am y telerau uchod. Anfoner at The Editor of Yr Ymofynydd, Mount Pleasant Garden, Aberdare.

RHWYMIR LLYFRAU

O bob math, yn dda, ac am brisoedd rhesymol, gan JENKIN WILLIAMS, 6, Back Mount Pleasant, Trecynon, Aberdare.

AT EIN DARLLENWYR.

Telerau.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½. ; ar dri chopi a rhagor, telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36, Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.